| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **12 Rhagfyr 2008** |
| TEITL: | **“Peace in our time” - Cynhadledd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** |
| PWRPAS: | **Hysbysu’r aelodau o gynnwys a gwerth y gynhadledd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y Cyflogwyr Llywodraeth Leol, 23-24 Hydref 2008 yng ngwesty’r Marriott, Caerdydd** |
| AWDUR: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

Darparodd Cynhadledd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y Cyflogwyr Llywodraeth Leol (CPLlL) wybodaeth ddiddorol am sawl agwedd o ran datblygiad y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac agweddau o fuddsoddi cronfeydd. Mynychwyd y digwyddiad gan bum cynrychiolydd o Gyngor Gwynedd, sef y Cynghorydd John Gwilym Jones, y Cynghorydd Keith Greenly-Jones, y Cynghorydd Linda Ann Jones, y Cynghorydd Tudor Owen, a Dafydd L Edwards (Pennaeth Cyllid).

## 2. “PEACE IN OUR TIME”

Yn fuan ar ôl i Neville Chamberlain hedfan yn ôl o Munich yn 1938 a datgan y cymal enwog “peace for our time”, gan chwifio’r datganiad Eingl-Almaeneg, ddaru Almaen Adolf Hitler feddiannu Gwlad Pwyl a chychwynnodd yr Ail Ryfel Byd. Ers rhoddwyd y teitl “peace in our time” i’r gynhadledd yma, bu lladdfa gyfatebol yn y byd ariannol! Yn y cyd-destun yma, roedd cydnabyddiaeth o sawl safbwynt y bydd fforddiadwyedd a chynaladwyedd y CPLlL (yn enwedig fel cynllun wedi’i gyllido gyda buddion diffiniedig) yn cael ei herio.

## 3. CPLlL – DYFODOL CYMHLETH AC ANSICR

Roedd y sesiwn agoriadol ‘enillwyr a chollwyr’ yn enghreifftio cymhlethdod y CPLlL ar gyfer gweinyddwyr cronfeydd ac aelodau’r cynllun (staff a chyflogwyr perthnasol), gyda chyfraniadau a buddion yn amrywio efo llawer ffactor, megis oed, gwasanaeth, cyflog, oriau, ayb.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch rhannu costau (mantoli cyfraniadau staff a chyflogwyr) ac os byddai’r datblygiad newydd hwnnw yn achub y CPLlL, awgrymodd Terry Edwards (Pennaeth Pensiynau Cymdeithas Cyflogwyr Llywodraeth Leol – yr “LGE”) y byddai’r dyfodol yn dibynnu yn sylweddol ar benderfyniadau parthed pensiynau eraill yn y sector gyhoeddus, sef Aelodau Seneddol, y gwasanaeth sifil, athrawon, ayb.

## 4. YMDDEOLIADAU TORIECHYD – POTES AFREOLAIDD?

Eglurodd Bob Holloway (gwas sifil gyda'r Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yn San Steffan) pa mor ddrud yw ymddeoliadau toriechyd fel modd o adael cyflogwr, a dylid trin ymddeoliadau toriechyd fel ystyriaeth olaf. Aeth ymlaen i awgrymu dylai cyflogwyr sicrhau cysondeb trwy ddeall arweiniad statudol, annog adferiad, ailhyfforddi ac adleoliad, a delio gyda staff mewn modd teg, cadarn ac agored (hawl dweud na gwneud, efallai?). Hefyd, cyfeiriodd (wrth gydio yn thema 'rhyfel' y gynhadledd) at y frwydr gerllaw, gan fyddai'r CPLIL yn destun ymosodiad.

Aeth Dr Damian Trafford (Meddyg Galwedigaethol Arbenigol) trwy rhai o'r rheoliadau a'r cyfarwyddiadau, anghysondebau, problemau ar gyfer meddygon, a disgwyliadau (uchel) y meddygon o swyddogaeth Adnoddau Dynol y cyflogwyr. Nododd dylai staff Adnoddau Dynol fod yn gwbl gyfarwydd gyda chynnwys llawlyfr "Management of Ill Health" yr "LGE" (er, yn anffodus, yn aml nid ydynt yn gyfarwydd), ac awgrymodd y bydd mwy o apeliadau yn erbyn penderfyniadau cyflogwyr gyda'r haenau newydd o ymddeoliadau toriechyd.

## 5. PENSIYNAU PARTNERIAID

Rhoddodd Lyn Thomas (Rheolwr Pensiynau, Cronfa Abertawe) flas a hiwmor Cymreig i'r mater lletchwith o bensiynau partneriaid ("delio gyda phechaduriaid"), gan egluro buddion pensiwn gweddwon, ardrawiad y 'Civil Partnership Act', ayb. Cyfeiriodd hefyd at lwyddiant cydweithio saith cronfa yng Nghymru, a rhannwyd copi o un o'n ffurflenni dwyieithog.

## 6. PRISIAD 2007 A DISGWYLIADAU

Cyflwynodd Alison Murray (Partner ac Actiwari, Hymans Robertson) wybodaeth am lefelau cyllido a chyfraddau cyfrannu cronfeydd pensiwn llywodraeth leol, gan egluro sut y mae rhai amrywiadau oherwydd rhagdybiaethau actiwaraidd. Ymhelaethodd Andrew Gaches (Actiwari arall o Hymans sy'n arbenigo mewn darparu cyngor ar hirhoedledd) drwy arddangos effaith materion fel hirhoedledd ("longevity" - pe bai pensiynwyr llywodraeth leol yn byw un flwyddyn yn hirach ar gyfartaledd, byddai'n ychwanegu £5 biliwn at gyfanswm y gost), a determinannau megis rhyw y person, incwm a lleoliad cartref (codau post).

Roedd Alison yn annog cronfeydd i ailymweld â'u strategaethau buddsoddi a chyfraniadau yng nghyd-destun rhagolygon o ostyngiadau mewn lefelau ariannu cronfeydd (o 85% ym Mawrth 2007 i 70% erbyn Awst 2008) a'r tebygolrwydd o gynnydd mewn cyfraniadau cyflogwyr, ond nid oedd Hymans yn gweld rheswm am "panig", ac roedd ganddi hi resymau dros obeithio byddai cronfeydd yn medru reidio allan anweddolrwydd y farchnad stoc.

## 7. YMHLYGIADAU CYFREITHIOL O'R RHEOLIADAU NEWYDD

Gosodwyd allan gan Gary Delderfield (Partner gyda chwmni twrneiod Eversheds) rhai problemau cyfreithiol ar gyfer awdurdodau gweinyddu gyda rheoliadau pensiwn oedd wedi'u drafftio yn wael. Hefyd, cyfeiriodd at sawl mater ynghylch llywodraethu ("governance"), a'r ffordd ymlaen i ddelio gyda chyrff sy'n cael mynediad i gronfeydd pensiwn (contractwyr preifat). Roedd ef yn rhagweld y byddai'r Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Lleol yn ymgynghori ynglŷn â rheoliadau drafft penodol ar gyfer mynediad i'r fath gyrff yn 2009.

## 8. BARN AELOD ETHOLEDIG

Disgwyliwyd y byddai'r Cynghorydd Ian Greenwood (Cadeirydd Cronfa Bensiwn Gorllewin Swydd Efrog) yn cyflwyno sesiwn ar bensiynau i gynghorwyr, ond (fel gellid disgwyl gan gyn-swyddog undeb) fe roddodd farn ddigon plaen ar nifer o faterion amrywiol. Un o'i goelion oedd ei fod yn gamarweiniol i ddefnyddio "bond yields" ar gyfer cyfrifo ymrwymiadau cronfeydd, gan fod pris y farchnad wedi'i ystumio pryd mae cronfeydd yn prynu bondiau er mwyn sicrhau diogelwch.

## 9. LLYWODRAETHU BUDDSODDI

Eglurodd Sue Timbrell (Is-Gadeirydd, Panel Pensiynau CIPFA) y cefndir i adroddiad 'Myners' (2001) a gyrhaeddodd y casgliad fod gan ymddiriedolwyr ddiffyg medrusrwydd mewn buddsoddi. Aeth ymlaen i gyflwyno 10 egwyddor Myners, gosod allan yr argymhellion a wnaethpwyd yn adolygiad y NAPF (2007), ac amlinellu ymateb Trysorlys Ei Mawrhydi. Nodwyd y byddai'r Trysorlys / CIPFA yn sefydlu is-grŵp CPLIL o'r Grŵp Llywodraethu Buddsoddi er mwyn cymhwyso'r egwyddorion ar gyfer y cyd-destun pensiynau llywodraeth leol. Daeth i derfyn wrth drafod cydymffurfiad cronfeydd, adolygu datganiadau o egwyddorion buddsoddi, a thrafod cyfathrebu gyda deiliad diddordeb.

## 10. BUDDSODDI ECOLEGOL

Siaradodd Niall Dunne (Strategwr Buddsoddi gyda Pioneer Investments) yn ddadlennol am fuddsoddi ecolegol (buddsoddi amgylcheddol a chynaliadwy - ddim yn dibynnu ar adnodd sy'n diflannu). Roedd ef yn credu bod y farchnad yn darganfod y model gorau (e.e. cerbydau wedi'u gyrru gan drydan / batris sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd). Cyflwynodd ddadl y dylai cronfeydd fuddsoddi mewn amrywiaeth o nifer o'r fath fuddsoddiadau (e.e. mewn sawl corff sy'n datblygu technoleg er mwyn mwynhau cynnyrch amaethyddol, nid just mewn ynni o'r haul) er mwyn uchafu enillion, ond i beidio rhoi eu wyau i gyd mewn un fasged.

## 11. CASGLIADAU

Roedd y digwyddiad yma yn cynnwys ymdriniaeth o sawl agwedd o bensiynau, wedi'i gyflwyno mewn dull dealladwy, ac yn darparu cyfleon ar gyfer rhwydweithio defnyddiol.

Ymhellach i bresenoldeb ymroddgar pob cynrychiolydd ym mhob sesiwn o'r gynhadledd, mae cynrychiolwyr Gwynedd yn ddoethach yn sgil mynychu ac yn argymell yn unfrydol y dylai Pwyllgor Pensiynau Gwynedd barhau i gefnogi'r digwyddiad hwn.